**Eitem ar yr agenda: 10**

**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**PANEL GWEITHREDOL**

**26 HYDREF 2005**

**AILSTRWYTHURO ARFAETHEDIG YR HEDDLUOEDD AC AWDURDODAU'R HEDDLU**

Adroddiad gan y Clerc

**Diben yr Adroddiad**

1 Ystyried ymateb i'r llythyr, dyddiedig 28 Medi 2005, oddi wrth Glerc Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

**Cefndir**

2 Ar 16 Medi 2005, fe gyhoeddwyd adroddiad gan y Swyddfa Gartref o'r enw "Closing the Gap – a review on the 'Fitness for Purpose' of the current structure of policing in England and Wales".

3 Yng ngoleuni cyhoeddi'r adroddiad, mae Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio y Cynulliad Cenedlaethol yn cynnal ei adolygiad ei hun o bolisi, dan yr enw "Ailstrwythuro'r Heddlu".

**Gwybodaeth**

4 Fel rhan o'i adolygiad, mae'r Pwyllgor wedi gwahodd amryw o gyrff a sefydliadau i gyflwyno eu barn ar y trefniadau strwythurol ar gyfer dyfodol y gwasanaeth heddlu yng Nghymru. Fel atodiad i'r adroddiad hwn mae copi o'r ohebiaeth a dderbyniwyd oddi wrth Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio yn gwahodd ymateb yr Awdurdod, ac yn rhoi cylch gorchwyl yr adolygiad.

**Argymhelliad**

5 Bod y Panel yn ystyried llythyr y Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio, a'r ymateb drafft a fydd yn cael ei gynnig yn y cyfarfod.